

Leisure, Libraries & Culture Services Department

New Opportunities Fund
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

WREXHAM & FLINTSHIRE
WRECSAM & SIR FFLINT

Gwasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam

Teithiau Cerdded Iach ym, Mharciau Gwledig Wrecsam a'r Cyffiniau



Teithiau Cerdded Iach ym Mharciau Gwledig Wrecsam a'r cyffiniau

Mae'r llyfryn hwn yn cynnws **7 o deithiau cerdded** sy'n dechrau mewn parciau gwledig a reolir gan Wasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam.

Mae'r teithiau'n weddol rhwydd. Nid ydynt yn fwy na **2-3 milltir o hyd**, ac nid ydynt yn para'n hirach na **2 awr**. Rydym hefyd wedi rhoi un o'r graddfeydd canlynol i bob un o'r teithiau:

Gradd A - Llwybrau ag arwyneb a llethrau bychain yn unig.
Gradd B - Llwybrau heb arwyneb a glaswelltir gyda llethrau cymedrol.
Gradd C - Llwybrau heb arwyneb a glaswelltir, camfeydd a llethrau serth.

Croesawir cŵn ar y teithiau cerdded hyn, cyn belled â'u bod yn cael eu cadw dan reolaeth. Rydym wedi ceisio cynnwys unrhyw fannau o ddiddordeb lleol ym mhob un o'r teithiau. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw rai o'r teithiau, ffoniwch y rhif ffôn isod.

Mae pob un o'r 7 barciau gwledig yn unigryw, gyda rhywbeth at ddant pawb, o olegfeydd tawel o goetiroedd ac afonydd i fannau chwarae ac anifeiliaid fferm. Mae gennym raglen o weithgareddau cyffrous ym mhob un o'r parciau, a gynhelir trwy gydol y flwyddyn. Cewch fwy o fanylion yn ein taflen ddigwyddiadau. Rydym hefyd yn darparu rhaglen addysg amgylcheddol eang i ysgolion. Cewch fwy o wybodaeth am Wasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam a'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: **www.wrexham.gov.uk/countryside** ac yn ein taflen ddigwyddiadau. Mae'r rhain ar gael yng nghanolfannau ymwelwyr Tŷ Mawr, Dyfroedd Alun a Melin y Nant.

Os hoffech i ni anfon taflen ddigwyddiadau atoch, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill, ffoniwch **01978 763140** neu anfonwch e-bost at **countryparks@wrexham.gov.uk**

I gael gwybodaeth am deithiau cerdded ymhellach oddi cartref yng ngogledd Cymru, Sir Gaer a Chilgwri, ewch i **http://www.fresh-air.info**

Hoffech chi gael cwmni wrth i chi gerdded?

Mae Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint yn rheoli 'Walkabout Wrexham', sy'n rhan o'r cynllun cenedlaethol 'Cerdded Llwybr Iechyd' sydd â'r nod o hyrwyddo manteision cerdded bywiog, trwy deithiau tywysedig a cherdded yn annibynnol. Mae gan Groundwork raglen o deithiau cerdded iach wythnosol yn ardal Wrecsam sydd rhwng 1 a 3 milltir. Mae'r rhain am ddim, ar agor i bawb a chânt eu harwain gan Arweinwyr Cerdded Gwirfoddol hyfforddedig a chyfeillgar. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys teithiau cerdded hirach sydd â'r nod o roi mwy o her ac amrywiaeth i gerddwyr. Mae'r cynllun hefyd yn hyrwyddo teithiau cerdded annibynnol, gan gynnwys y teithiau a gynhwysir yn y daflen hon.

MAE CERDDED YN BLESERUS, YN HAMDDENOL AC YN GWNEUD LLES I'CH IECHYD, FELLY MWYNHEWCH!

Oeddech chi'n gwybod? Gall cerdded...

- Wneud i chi deimlo'n dda
- Roi mwy o egni i chi
- Eich helpu i gysgu'n well
- Helpu i leihau straen
- Gadw'ch calon yn gryf
- Leihau eich pwysedd gwaed
- Eich helpu i reoli eich pwysau

Pam cerdded?

- Dyma'r ffordd ddiogel i gadw'n iach ac yn heini
- Mae'n gyfle i chi gyfarfod â phobl a gwneud ffrindiau
- Gellwch ei wneud mewn unrhyw le ar unrhyw adeg
- Y cwbl sydd ei angen arnoch yw esgidiau cyfforddus
- Nid ydych yn debygol o anafu eich hunain, ac nid yw'n brifo!
- Gellwch ddechrau'n araf a chynyddu'n raddol
- Mae'n rhad ac am ddim!

Fe'ch argymhellir i wneud 30 munud o ymarfer corff cymedrol 5 gwaith yr wythnos, ac mae cerdded yn enghraifft wych.

Am fwy o fanylion am y rhaglen deithiau tywysedig, ffoniwch:

GROUNDWORK
WRECSAM A SIR Y FFLINT
01978 363555

Pŵer Pedlo yn Nyfroedd Alun

Lansiwyd Prosiect Pŵer Pedlo Calonnau a Meddyliau yn ystod haf 2005, a'i nod yw gwneud beicio'n hygyrch i blant ac oedolion sydd ag ystod o anableddau. Nid yw beicio'n fath o ymarfer corff sy'n rhoi gormod o bwysau ar eich cymalau, ac mae'n ffordd ddelfrydol o wella a chynnal eich cryfder a'ch lefelau ffitrwydd. Mae Pŵer Pedlo'n defnyddio beiciau 3 olwyn a adeiladwyd yn arbennig, ac a ddefnyddir ar drac 1 milltir di-draffig ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun.

Mae beicio'n weithgaredd pleserus, cymdeithasol ac iachus a fydd yn cyfrif fel rhan o'ch rhaglen ffitrwydd wythnosol.
I neilltuo sesiwn, ffoniwch eich **Cydlynydd Pŵer Pedlo yn Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint ar 01978 363555.**

Rheolir y Prosiect Pŵer Pedlo Calonnau a Meddyliau gan Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint, ac fe'i ariennir gan y Loteri Fawr, Calonnau a Meddyliau, y Bwrdd Iechyd Lleol a Gogledd Gororau Cymru.

Gwreiddiau Calonnau Iach

Mae Gwreiddiau Calonnau Iach yn brosiect a reolir gan Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint, gyda nawdd gan Gronfa'r Loteri Fawr. Nod y prosiect yw hyrwyddo gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach ymysg plant ysgol a grwpiau cymunedol. Gellir trefnu ystod o weithgareddau a sesiynau ar gyfer eich ysgol neu grŵp cymunedol.

Y Llwybr Heini yn Nyfroedd Alun

Mae'r Llwybr Heini yn Nyfroedd Alun, sydd ag 11 o wahanol fathau o offer, yn ffordd ddelfrydol o wella a chynnal eich lefelau ffitrwydd.

Wedi'i lunio fel ardal weithgareddau awyr agored gyffrous ac egniol, mae'r Llwybr Heini'n cyfuno dau wahanol fath o offer – cylched i blant a chylched ffitrwydd.

Mae'r gylched i blant yn cynnwys 6 darn o offer, ac mae pob un ohonynt wedi'u llunio i annog chwarae corfforol diogel ac anturus. Gall yr offer helpu i wella cryfder, cydbwysedd a chydsymudiad y plant, yn ogystal â'r manteision meddyliol cysylltiedig sy'n dod law yn llaw â mwy o hunan hyder a gwell ffitrwydd.

Mae'r gylched ffitrwydd yn cynnwys 5 darn o offer, a gellir eu defnyddio i weithio ar wahanol agweddau o'ch ffitrwydd a'ch cryfder corfforol. Os nad ydych wedi gwneud ymarfer corff yn ddiweddar, byddwch yn ofalus nad ydych yn ei gor-wneud hi – yn arbennig yn ystod eich ymweliad cyntaf.
Mae cyfres o gardiau cyfarwyddiadol ar gael yn nerbynfa Canolfan Ymwelwyr Dyfroedd Alun (bydd angen i chi dalu blaendal a ad-delir i chi) i'ch cynghori ar sut i ddefnyddio'r offer, neu fel arall, gellwch drefnu i gyfarfod â Swyddog Ffordd o Fyw Bywiog y prosiect "Gwreiddiau Calonnau Iach" am sesiwn dan arweiniad.

Am fwy o wybodaeth am sesiynau dan arweiniad ar y Llwybr Heini, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, neu'r prosiect Gwreiddiau Calonnau Iach, ffoniwch:

GROUNDWORK WRECSAM A SIR Y FFLINT ar 01978 363555

Taith Gerdded o Ganolfan Ymwelwyr Melin y Nant

Canolfan Ymwelwyr Melin y Nant
Ffordd Rhos y Bers, Coedpoeth
Wrecsam LL11 3BT
Ffôn: 01978 752772
Mae'r ganolfan ar agor: 10.30am - 4.30pm
Pasg - Awst, bob dydd.
Medi - Pasg, penwythnosau'n unig.
Mae'r parc ar agor trwy gydol y flwyddyn.

Sut i gyrraedd y Ganolfan: Lleolir Canolfan Ymwelwyr Melin y Nant dair milltir i orllewin Wrecsam, ger pentref Coedpoeth. Dilynwch yr arwyddion i "Glywedog" ar yr A483, trowch ar yr A525 tuag at Ruthun a dilynwch yr arwyddion brown a gwyn i "Melin y Nant".

Pellter: 3 milltir
Amser: 1 awr 30 munud
Gwybodaeth: Gradd B, gyda gogwydd o 10-15% ar ddechrau a diwedd a daith a llethr o 15-25% ar ganol y daith. Daw rhan o'r llwybr yn fwdlyd iawn yn ystod y gaeaf. Nodwch fod y llwybr hwn yn cynnwys giât mochyn a grisiau.
Disgrifiad: Taith gerdded hyfryd sy'n dilyn yr afon Clywedog drwy goetir hynafol Plas Power i'r Bers.



Melin y Nant

1 Wrth adael y ganolfan, trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y lôn am 50 metr, trowch i'r dde, a chyn cyrraedd y bont, ewch drwy'r giât mochyn ar y chwith. Erbyn hyn, mae'r coetir, a oedd yn rhan o Ystad Plas Power yn wreiddiol, yn cael ei reoli a'i gadw gan Ymddiriedolaeth y Coetir. Enwyd yr ystad ar ôl Syr Henry Power a ddaeth yn Is-iarll Velentia yn 1620. Mae'r 72 erw o goed yn cynnwys ardal fawr o goetiroedd hynafol, ac mae nifer o'r coed derw a ffawydd aeddfed dros 200 blwydd oed.

2 Dilynwch y llwybr hwn, ac ar ôl ¾ milltir, fe ewch drwy Glawdd Offa. Adeiladwyd Clawdd Offa yn yr 8fed ganrif gan Offa, Brenin Mersia, fel llinell amddiffynnol yn erbyn y Cymry. Rheda'r clawdd o'r Wyddgrug i Gas-gwent yn ne Cymru. Parhewch i gerdded am ryw 100 metr ac yna dargyfeiriwch i'r dde i gored Y Goedwig Fawr, cyn dychwelyd at y llwybr. Mae cored Y Goedwig Fawr yn rhaeadr trawiadol 4 metr o uchder, yn enwedig pan fo'r afon yn gorlifo. Er yr ymddengys yn naturiol, wrth edrych yn agosach, mae'n amlwg yr adeiladwyd y gored i ddarparu dŵr ar gyfer injan stêm leol.

3 Parhewch ar hyd y llwybr am ¼ milltir gan fynd heibio i Gored Caeau, cyn i'r llwybr ymuno â'r ffordd. Adnabyddir Cored Caeau fel y Grisiau Rwsiaidd yn lleol, gan fod llên gwerin leol yn honni bod y gored wedi'i hadeiladu gan garcharorion rhyfel o Rwsia. Roedd y gored yn arfer darparu dŵr ar gyfer melin flawd ar safle Gweithfeydd Haearn y Bers. Ar ôl y gored, gellir gweld Eglwys y Santes Fair ar yr ochr draw i'r ffordd. Mae hon yn eglwys breifat a adeiladwyd ar gyfer Ystad Plas Power yn 1875. Ceir amrywiaeth o goed estron yn nhiroedd yr eglwys, gan gynnwys secwoia anferth a choeden "gas gan fwnci".

Mae cored Big Wood

4 Dilynwch y ffordd heibio Gweithfeydd Haearn y Bers, sydd ar y chwith, o dan y bont a throwch i'r chwith ar y gyffordd T. Yn y 18fed ganrif, y Bers oedd cartref un o'r gweithfeydd haearn pwysicaf yn y wlad. Dan berchenogaeth John "Iron Mad" Wilkinson, roedd y gweithfeydd yn enwog am wneud silindrau ar gyfer peiriannau pwmpio stêm a chanonau ar gyfer Rhyfel Annibyniaeth America.

5 Parhewch ar hyd y ffordd am 100 llath cyn troi i'r dde i Ganolfan Dreftadaeth y Bers. Mae gan y ganolfan amgueddfa ragorol, sy'n adrodd hanes hudol diwydiant y Bers. Mae'r ganolfan, sydd ar agor trwy gydol y flwyddyn, hefyd yn cynnwys siop a thoiledau. Ffoniwch 01978 261529 i wirio'r oriau agor. Dychwelwch i Felin y Nant trwy ddilyn yr un llwybr.

Taith Gerdded Parc Gwledig Tŷ Mawr

Parc Gwledig Tŷ Mawr
Lôn Cae Gwilym, Cefn Mawr,
Wrecsam LL14 3PE.
Ffôn: 01978 822780
Mae'r ganolfan ar agor: 10.30am - 4.30pm
Pasg - Awst, bob dydd.
Medi - Pasg, penwythnosau'n unig.
Mae'r parc ar agor trwy gydol y flwyddyn.

Sut i gyrraedd y parc: Mae'n hawdd dod o hyd i'r parc, sydd wedi'i leoli pum milltir i'r de o Wrecsam ym mhentref Cefn Mawr. Gwelwch arwyddion ar gyfer Parc Gwledig ar gyffordd Llangollen/Rhiwabon ar yr A483. Dilynwch yr arwyddion brown a gwyn i'r parc.

Pellter: 3 milltir
Amser: 2 awr

Gwybodaeth: Gradd B. Mae'r daith gerdded hon hefyd yn cynnwys un rhes fer ac un rhes hir o risiau. Mae'r graddiannau ar y daith gerdded yn amrywio o 10 i 20% ar y llwybrau a'r ffyrdd, a hyd at 50% ar y grisiau.

Disgrifiad: Taith gerdded sydd â golygfeydd godidog, sydd hefyd yn croesi'r draphont ddŵr fyd enwog ym Mhontcysyllte.

Traphont Ddŵr

2 Dilynwch y llwybr ar hyd yr afon am filltir. Cyn i'r llwybr droi i'r dde i fyny'r allt, trowch i'r chwith i lawr y grisiau ac i'r llwybr bordiau. Dilynwch lwybr yr afon am ¾ milltir nes i chi gyrraedd y draphont ddŵr. Mae afon Dyfrdwy'n llifo trwy Langollen o'i tharddiad yn Llyn Tegid, cyn mynd heibio i Dŷ Mawr ar y ffordd i Gaer a Môr Iwerddon. Mae'r afon yn SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

3 Wrth gyrraedd gwaelod y draphont ddŵr, ewch i fyny'r grisiau a throwch i'r chwith o dan fwa cyntaf y draphont. Mae traphont ddŵr Pontcysyllte'n cario cainc Llangollen o Gamlas Undeb Sir Amwythig. Cafodd ei hadeiladu gan y peiriannydd enwog, Thomas Telford, yn 1805. Bu i Thomas Telford adeiladu'r A5 hefyd, sef y brif ffordd o Lundain i Gaergybi, sy'n teithio trwy ddyffryn Dyfrdwy. Mae'r draphont ddŵr yn 120 troedfedd o uchder, sef y draphont ddŵr uchaf ym Mhrydain!

4 Wrth gyrraedd y ffordd, trowch i'r chwith i lawr yr allt, gan droi i'r chwith ar draws y Bont. Dilynwch y ffordd am ¾ milltir cyn cymryd y troad cyntaf i'r chwith ar hyd llwybr tynnu'r gamlas. Adeiladwyd y Bont yn 1697. Roedd yn bwysig iawn ar un adeg, gan mai dyma'r unig bont yn yr ardal hyd nes yr adeiladwyd croesfan yng Nghefnbychan.

5 Wrth gyrraedd y gamlas, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr tynnu at y draphont ddŵr. Croeswch y draphont ddŵr a chymerwch y llwybr cyntaf ar y dde, i ddychwelyd yn ôl ar hyd yr afon. Adeiladwyd camlas Llangollen yn wreiddiol i gysylltu Camlas Undeb Sir Amwythig â Chaer. Rhoddwyd gorau i'r cynllun o ganlyniad i gostau cynyddol a thirfeddiannwyr cyndyn. Erbyn hyn mae'r gamlas a adeiladwyd yn 1805 yn cyflenwi dŵr yfed i dde Sir Gaer ac yn boblogaidd iawn ar gyfer gwyliau camlas.

6 Wrth ddychwelyd i'r parc, trowch i'r chwith a cherddwch i fyny'r allt i'r Ganolfan Ymwelwyr.

Traphont

Taith Gerdded Parc Gwledig Stryt Las

Parc Stryt Las
Ffordd Cwm Glas (ger Stryt y Parc), Johnstown, Wrecsam. Anfonwch unrhyw bost at gyfeiriad Tŷ Mawr.
Ffôn: 01978 822780
Mae'r parc ar agor trwy gydol y flwyddyn.

Sut i gyrraedd y parc: Gellwch ddod o hyd i Stryt Las trwy ddilyn y gyffordd ar gyfer y B5426 ar yr A483 tuag at Johnstown. Wrth gyrraedd y goleuadau traffig, trowch i'r chwith ac yna i'r dde ar unwaith i Ffordd y Parc. Dilynwch y ffordd am ryw 100 metr, ac fe welwch faes parcio'r parc.

Pellter: 1 milltir
Amser: 30 munud
Gwybodaeth: Gradd A, gyda gogwydd o 15-20% am ryw 100 metr.
Disgrifiad: Taith gerdded fer a hawdd ar arwyneb caled o gwmpas parc corstir.

Ar un adeg roedd Parc Stryt Las, sy'n enwog am ei boblogaeth fawr a phwysig o fadfallod dŵr cribog, yn ardal mwyngloddio, ac mae un ar ddeg o siafftiau yn y parc. Erbyn hyn, mae'r siafftiau wedi'u gorchuddio, ond roeddent yn gorlifo'n rheolaidd tan y 1990au cynnar, gan orchuddio Ffordd Stryt Las sydd ger y parc.

1 Ewch drwy'r giât a throwch i'r chwith gan gerdded i lawr yr allt. Parhewch ar hyd y llwybr tarmac rhwng y llyn ar y chwith a'r pwll ar y dde. O ganlyniad i'r boblogaeth anferth o fadfallod dŵr cribog sy'n bridio yn y parc, mae bellach yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Yn ystod y gwanwyn, mae'r madfallod yn treulio dipyn o amser yn y pyllau dŵr, gan mai dyma lle maent yn bridio ac yn dodwy eu hwyau. Yn aml, gellir eu gweld yn y pwll bach ar y dde.

2 Mae'r parc hefyd yn gartref i lygod y dŵr. Mae'r rhain yn greaduriaid bach swil, ond o bryd i'w gilydd, fe glywch sblash wrth iddynt neidio i'r dŵr. Yn wahanol i lygod mawr, maent ryw 20cm o hyd ac mae ganddynt drwynau bach pŵl a chynffonau byr. Dilynwch y llwybr i fyny'r llethr gan anwybyddu'r llwybr sy'n canghennu i'r dde.

3 Os dargyfeiriwch rhyw ychydig fetrau i'r chwith ar ben y bryn, cewch olygfeydd braf o'r parc a sedd fadfall arbennig i orffwys arni. Parhewch ar hyd y llwybr nes i chi gyrraedd y ffordd.

4 Trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd, ac ar ôl rhyw 100 metr, trowch i'r chwith eto gan droi'n ôl i mewn i'r parc. Mae nifer fawr o hwyaid yn byw yn y parc, ynghyd â phâr o elyrch. Ni chaniateir i chi fwydo'r hwyiaid, gan y bydd yn annog mwy o hwyaid i ddod i Stryt Las. Os bydd gormod o hwyaid ar y llyn, bydd eu tail yn llygru'r llyn, gan niweidio'r madfallod dŵr cribog a'r creaduriaid eraill sy'n byw yn y dŵr.



G

Taith Gerdded Parc Gwledig a Phyllau Plwm y Mwynglawdd

Parc Gwledig a Phyllau Plwm y Mwynglawdd
Ffordd y Wern, Y Mwynglawdd,
Wrecsam LL11 3DU
Ffôn: 01978 763140
Mae'r parc ar agor trwy gydol y flwyddyn.

Sut i gyrraedd y parc:
Y Mwynglawdd yw'r pentref nesaf at bentref New Brighton a gellir cyrraedd y parc o'r A483, trwy ddilyn arwyddion ar gyfer "Clywedog" ac o'r A525 trwy ddilyn yr arwyddion i "Byllau Plwm y Mwynglawdd".



Roedd gan y Mwynglawdd, a gafodd ei enw Saesneg o'r gair Lladin am "fwyn", ddiwydiant cloddio plwm sy'n dyddio yn ôl i'r canol oesoedd. Erbyn canol y 19eg ganrif, roedd cloddio am blwm yn y Mwynglawdd wedi datblygu'n ddiwydiant cynhyrchiol a phroffidiol. Yn y 1860au, gellid gwerthu tunnell o blwm a oedd yn costio £1 i'w gloddio a'i farchnata, am £15.

Barry Evans ©

Pellter: 2 filltir
Amser: 1 awr
Gwybodaeth: Gradd B, gwastad heblaw am lethr llyfn o 10% am ryw gan llath ar ddechrau a diwedd y daith gerdded. Mae'r llwybr hefyd yn cynnwys giât mochyn.
Disgrifiad: Taith gerdded hamddenol ar hyd rheilffordd segur gwastad i chwarel calchfaen y Mwynglawdd. Mae'r golygfeydd yn brydferth ac mae'r daith yn llawn dop o bethau sydd o ddiddordeb daearegol a hanesyddol.

1 Cerddwch i fyny'r allt o'r maes parcio a throwch i'r dde, gan gerdded heibio i'r ganolfan ymwelwyr ac adeiladau'r pwll ar y dde. Gellir gweld peirianwaith y pwll o'r llwybr. Y peiriant mwyaf amlwg yw'r periandy mawr, a oedd yn cadw injan stêm a oedd yn pweru'r pympiau. Roedd y pyllau'n dueddol o orlifo, ac roedd rhaid pwmpio dŵr o'r pyllau'n gyson. Mae yna siop ac amgueddfa ar y safle (ffoniwch 01978 261529 i gael yr oriau agor).

2 Cerddwch ar hyd y trac am 100 metr – mae'r trac yn troi i'r chwith trwy giât – yn hytrach na mynd trwy'r giât, parhewch mewn llinell syth gan ddilyn y llwybr ar hyd ochr y cae.

3 Ar ôl 200 metr mae yna giât mochyn ar y chwith. Ewch drwy'r giât hon a chroeswch y ffordd at yr hen reilffordd. Adeiladwyd y rheilffordd i gludo plwm a chalchfaen o'r chwareli a'r pyllau i rwydwaith y rheilffyrdd. Gellir gweld yr hen drawstiau ar rannau o'r rheilffordd.

4 Dilynwch y rheilffordd am ryw filltir, gan groesi dwy ffordd arall, nes i chi gyrraedd Chwarel y Mwynglawdd. Gwnaed cryn dipyn o waith cloddio i'r chwith o'r rheilffordd, ac mae nifer o'r siafftau'n parhau hyd heddiw, felly cadwch at y llwybr. Erbyn hyn, mae'r ardal yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sydd â nifer o blanhigion anghyffredin yn tyfu ymysg y tomenni pridd gwastraff.

5 Mae Chwarel y Mwynglawdd yn dyddio'n ôl i'r 1800au cynnar, ac roedd pobl yn dal i weithio yno tan ddechrau'r 1990au. Mae'r chwarel yn cynnwys nifer o odynau calch, gan gynnwys odyn ysblennydd Hoffman. Os byddwch yn penderfynu archwilio'r chwarel, cadwch at y llwybrau troed cyhoeddus. I gwblhau'r daith, ewch yn ôl i'r dechrau gan ddilyn y rheilffordd.

Taith Gerdded Parc Gwledig Dyfroedd Alun

Parc Gwledig Dyfroedd Alun
Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt,
Wrecsam LL11 4AG
Ffôn: 01978 763140
Mae'r ganolfan ar agor: 10.30am - 4.30pm bob dydd.
Mae'r parc ar agor bob dydd.

Sut i gyrraedd y parc:
Lleolir Dyfroedd Alun 3 milltir i ogledd Wrecsam, rhwng Gwersyllt, Bradle a Llay. I gyrraedd y Ganolfan Ymwelwyr, ewch ar hyd yr A541, sef y ffordd o Wrecsam i'r Wyddgrug, ac ar ôl i chi fynd trwy Wersyllt, dilynwch yr arwyddion brown i Barc Gwledig Dyfroedd Alun.

Pellter: 3 milltir
Amser: 1 awr 30 munud
Gwybodaeth: Gradd A, heblaw am dair llethr o 15%, 20% a 27%.
Disgrifiad: Cymysgedd hyfryd o goetiroedd, glan yr afon a glaswelltir, gan ddilyn Llwybr Cerfluniau Dyfroedd Alun.

1 Wrth adael y ganolfan, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr heibio'r balalwyfen fawr ar y dde, at y llwybr tarmac. Ewch i lawr yr allt, gan gerdded heibio i droad ar y dde nes i chi gyrraedd yr afon.



2 Wrth i chi gerdded ar hyd yr afon, fe welwch weddillion hen gored a ddifrodwyd gan stormydd yn y 1990au. Wrth gyrraedd y lôn, trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd heibio Melin Bradle, a oedd yn arfer cael ei bwydo gan ddŵr a oedd yn llifo o'r gored y bu i chi gerdded heibio iddi'n gynharach.

3 Ar ben y bryn, ar ôl rhyw ⅓ milltir, fe welwch fynedfa'r Parc Gwledig o'ch blaen. Ewch i mewn i'r parc a cherddwch ar hyd y llwybr beicio heibio cerflun marmor gwyn, ac wrth gyrraedd cerflun sydd â siâp cwmwl, trowch i'r chwith. Penodwyd gwarchodfa natur leol ar ochr Llay y parc o ganlyniad i'r boblogaeth o ehedyddion sy'n bridio yno. Yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf, gellwch glywed yr adar hyn yn canu fry uwchben y glaswelltir.

4 Dilynwch y llwybr beicio am 400 metr cyn troi i'r chwith rhyw 50 metr ar ôl y fadarchen efydd, ar lwybr graean. Dilynwch y llwybr drwy'r coetir nes i chi gyrraedd y cerflun marmor gwyn cyfarwydd y bu i chi gerdded heibio iddo'n gynharach. Trowch i'r dde ar y llwybr beicio a gwnewch eich ffordd yn ôl at y ffordd ac i lawr at y bont.

5 Ewch yn ôl i mewn i'r parc ar ôl y bont a dilynwch y llwybr beicio tarmac ar y chwith. Cadwch at y chwith wrth gyrraedd y gyffordd gyntaf ar ôl rhyw 400 metr, ac yna, wrth i chi gerdded heibio'r fainc sydd wedi'i cherfio o foncyff coeden 200 metr yn ddiweddarach, gwyrwch i'r dde. Arhoswch ar y llwybr beicio nes i chi gyrraedd y ganolfan.
Erbyn heddiw, mae'n anodd credu bod Parc Gwledig Dyfroedd Alun yn chwarel dywod a graean anferth ers talwm. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, rydym wedi plannu miloedd o goed i greu un o'r coetiroedd cymunedol mwyaf yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan helpu natur i adennill y tir unwaith eto er mwyn bywyd gwyllt. Mae'r parc yn llawn cerfluniau. Yn 1999, comisiynwyd Cath Keay i weithio gyda phlant ysgol a'r gymuned leol i greu 7 cerflun ar hyd y llwybr beicio ar ochr Llay y parc. Cadwch lygad ar agor am ddant y llew dur anferth Tristan Kessell ar y gylchfan y tu allan i'r Ganolfan Ymwelwyr, ynghyd â nifer o'i gerfluniau dur llai ar hyd y llwybr beicio ger y ganolfan. Mae mwy o gerfluniau ar y ffordd, felly cadwch lygad ar agor.

Taith Gerdded Parc Gwledig Bonc yr Hafod

Parc Gwledig Bonc yr Hafod
Ffordd yr Hafod (ger Ffordd Bangor),
Johnstown, Wrecsam
.Anfonwch unrhyw bost at gyfeiriad Tŷ Mawr.
Ffôn: 01978 822780
Mae'r parc ar agor trwy gydol y flwyddyn.
Mae'r maes parcio'n cau am 7.30pm

Sut i gyrraedd y parc:
Gellir dod o hyd i'r Hafod drwy droi am Johnstown ar yr A483. Cymerwch y troad cyntaf i'r dde am "Dennis' of Ruabon". Mae maes parcio'r Hafod ymhellach i fyny'r ffordd ar y chwith.

Pellter: 1 ½ milltir
Amser: 1 awr
Gwybodaeth: Gradd B, esgyniad hir sydd â graddiannau o 10% i 20%, wedi'i ddilyn gan ddisgyniad serth sydd â llethrau o hyd at 30% ac un giât mochyn.
Disgrifiad: Esgyniad ysgafn drwy goetir cymunedol i ben tomen pridd gwastraff sydd wedi'i hadennill, sy'n rhoi golygfeydd godidog o ffiniau Cymru.

Ar un adeg, roedd yr Hafod yn bwll glo pwysig iawn. Dechreuwyd y gwaith yno yn 1863, ac erbyn 1914 roedd yn cyflogi 1,900 o weithwyr, gan gynhyrchu glo ar gyfer cartrefi, glo colsio a glo rhydd, yn ogystal â nwy. Roedd nifer o'r gweithwyr, y bu i rai ohonynt farw dan y ddaear, yn byw ym mhentref lleol Rhos, y gellir ei weld yn amlwg o ben yr Hafod, i'r gorllewin. Caewyd y pwll yn 1968. Adenillwyd y safle drwy gymysgu carthffosiaeth â gwastraff y lofa i'w gyfoethogi, ac yna plannwyd miloedd o goed brodorol i ffurfio coetir cymunedol. Erbyn heddiw, mae'r Hafod yn lle i bobl a bywyd gwyllt, ond ceisiwch ddychmygu sut oedd yn edrych pan oedd yn bwll glo.

1 Parciwch yn y maes parcio a leolir 200 metr y tu hwnt i'r gwaith brics. Dilynwch y llwybr ar ddiwedd y maes parcio, gan droi i'r dde ar ôl 100 metr, fel eich bod yn ymylu gwaelod y bryn. Cadwch i'r dde nes i chi gyrraedd y rheilffordd. Dilynwch y llwybr ar y chwith sy'n mynd ar hyd y rheilffordd. Gwrandewch i glywed sŵn yr ehedyddion – gellwch eu clywed yn canu fry uwchben yr Hafod yn ystod y gwanwyn a'r haf.

2 Ar ôl ¾ milltir mae'r llwybr yn cyrraedd giât ac yn troi i'r chwith. Dilynwch y llwybr o'r rheilffordd, gan droi i'r chwith yn y gyffordd nesaf. Dilynwch y llwybr sydd ag arwyneb a cherddwch i fyny'r bryn, yna dilynwch yr ail lwybr ar y chwith a'r trydydd llwybr ar y dde. Mae'r Hafod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) oherwydd y boblogaeth brin a hardd o fadfallod dŵr cribog sy'n byw yn y pyllau dŵr ger y rheilffordd.

3 Dilynwch y llwybr i ben y bryn at gerflun coffa 'Cysgod Amser'. Ceir golygfeydd o ffiniau Cymru o ben y bryn, gan gynnwys bryniau Sir Amwythig, Dinlle Gwrygon, Castell Beeston, Lerpwl a'r Hôb a Mynyddoedd y Mwynglawdd. Parhewch ar hyd y llwybr wrth iddo igam-ogamu i lawr y bryn at drac, yna trowch i'r dde a dilynwch y trac hwn i lawr i'r maes parcio.

Taith Gerdded Parc Gwledig Dyffryn Moss

Parc Gwledig Dyffryn Moss
Ffordd yr Aber, ger Ffordd Brynhyfryd a Ffordd Gatewen, Moss, Wrecsam.
Cysylltwch â: Ceidwad Cymunedol Dyffryn Moss, Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint, Ffordd Borras, Borras, Wrecsam, LL13 9TW.
Ffôn: 01978 363555
Mae'r parc ar agor trwy gydol y flwyddyn.

Sut i gyrraedd y parc:
Gadewch yr A483 ar gyffordd Yr Wyddgrug. Ar y gylchfan, trowch i Ffordd Brynhyfryd a dilynwch yr arwyddion melyn i gwrs golff Dyffryn Moss. Yna cymerwch y trydydd troad ar y chwith i Ffordd yr Aber. Parciwch rhwng y llynoedd.

Pellter: 2 ½ milltir
Amser: 1 awr 30 munud
Gwybodaeth: Gradd B, llwybr anwastad sy'n aml yn fwdlyd, ac sydd a nifer o lethrau sy'n amrywio hyd at 50% a thair cyfres hir o risiau.
Disgrifiad: Taith gerdded gylchol o gwmpas coetiroedd Dyffryn Moss.

Mae Dyffryn Moss yn barcdir hyfryd a leolir rhwng Gwersyllt a Brynteg, tair milltir i ogledd Wrecsam. Mae gan y dyffryn siâp V goetiroedd bob ochr iddo, dau lyn bychan a glaswelltir agored. Mae'r dyffryn yn gynefin cyfoethog i fywyd gwyllt, ac fe'i nodir yn arbennig am ei adar. Mae gan Ddyffryn Moss orffennol diwydiannol, ac ar un adeg, roedd yn ardal bwysig ar gyfer cloddio glo. Adennillwyd y tomenni pridd gwastraff yn 1973, ond ymysg y coetiroedd a'r dolydd tawel, gwelir tystiolaeth o'r hen reilffyrdd o hyd.



1 Dechreuwch yn y maes parcio mwyaf ger y llyn pysgota a dilynwch lwybr y coetir. Mae'r llwybr hwn yn dechrau ar y dde wrth i chi wynebu'r llyn. Dringwch y grisiau ger y ganllaw, a dilynwch y llwybr a nodir gan arwyddion cerfiedig drwy'r coetir, yr holl ffordd o amgylch y llyn ac yn ôl i'r maes parcio. Mae'r llyn pysgota poblogaidd hwn hefyd yn gartref i amrywiaeth o adar gwyllt. Cadwch lygad ar agor am grehyrod, ieir fach y dŵr, cotieir a glas y dorlan.

2 Croeswch y ffordd a dringwch y grisiau serth. Ar ôl cyrraedd pen y grisiau, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr heibio nifer o chwareli bychain, cyn mynd i lawr y grisiau ac allan o'r coetir. Enw'r graig a chwarelwyd yma yw tywodfaen Cefn. Adeiladwyd nifer o'r tai hŷn ym Moss o garreg Cefn. Mae'r coetir, sy'n cynnwys coed derw'n bennaf, yn caniatáu i ddigon o olau gyrraedd llawr y goedwig, sy'n cefnogi planhigion sy'n hoff o asid, megis gwyddfid, chwerwlys a rhedyn.

3 Wrth i chi ddod allan i'r glaswelltir, croeswch y bont a throwch i'r dde gan ddilyn y nant. Cyn i chi gyrraedd y ffordd, trowch i'r chwith i fyny'r allt at ddechrau'r llwybr beicio newydd. Ceisiwch ddychmygu'r dyffryn cyn i'r gwaith o adennill y tir ddechrau. O'r fan hon, byddwch wedi gweld tomenni sorod Glofa San Steffan yn lledaenu ar draws y dyffryn – canlyniad can mlynedd o gloddio.

4 Dilynwch y llwybr beicio at ben y coetir, yna trowch i'r chwith ac ymunwch â'r ffordd nes i chi gyrraedd y maes parcio. Ar y chwith i'r llwybr hwn, mae'r sycamorwydd yn taflu cysgod dwys ar y lan, gan ganiatáu i redyn a mwsoglau dyfu. Ers talwm, roedd y llwybr hwn yn rhan o reilffordd y Great Western Railway a oedd yn mynd i Lofa Moss.